



Bwrdeistref Sirol Caerffili

**2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd
2020–2035**

Cynllun Adnau

Fersiwn Gryno



Cynllun Adnau – Fersiwn Gryno

Bwrdeistref Sirol Caerffili 2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd 2020–2035

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn paratoi ei 2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd (2CDLIN) ar gyfer y cyfnod 2020–2035.

Rydym ni bellach wedi cyrraedd cam y Cynllun Adnau. Mae'r Cynllun Adnau yn nodi'r polisiau manwl, y dyraniadau safle a'r dynodiadau y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn angenrheidiol i gyflawni gweledigaeth, amcanion a dull strategol y Cynllun. Bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2026 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig presennol yn parhau mewn grym nes i'r cynllun newydd gael ei fabwysiadu.

Camau diweddar a'r camau nesaf wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol

1. Cynllun Cyn-Adneuo (Strategaeth a Ffefrir Diwygiedig) wedi'i gyhoeddi – Ionawr 2025, ac yna ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos
2. Penderfynodd y Cyngor barhau i baratoi'r Cynllun – Gorffennaf 2025
- RYDYM NI YMA >>** 3. Ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau – Hydref 2026, am chwe wythnos
4. Cyflwyno
5. Archwiliad Annibynnol
6. Adroddiad yr Arolygydd
7. Mabwysiadu a monitro ac adolygu parhaus

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb byr o'r **Cynllun Adnau**.

Mae'r Cynllun Adnau llawn, y Mapiau Cynigion a Chyfngiadau, y sylfaen dystiolaeth a'r asesiadau ategol ar gael drwy Borth Ymgynghori'r Cyngor, yma:

<https://caerphilly.oc2.uk/cy>

Pam mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn bwysig?

Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn bwysig am eu bod nhw'n gosod fframwaith ar gyfer sut y dylid defnyddio tir a sut y dylai datblygiad ddigwydd dros gyfnod oes y Cynllun.

Maen nhw'n ymdrin ag ystod eang o faterion defnydd tir ac yn helpu i gynllunio ar gyfer twf, buddsoddiad, seilwaith a diogelu'r amgylchedd.

Mae'r Cynllun yn meddwl am y canlynol:

- lle mae pobl yn byw;
- lle mae pobl yn gweithio;
- lle mae pobl yn siopa, yn ymweld ac yn treulio eu hamser;
- sut mae pobl yn symud o gwmpas, gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- y seilwaith a'r cyfleusterau cymunedol sydd eu hangen i gefnogi datblygiad; a
- sut y gellir diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol, yr amgylchedd hanesyddol, diwylliant a hunaniaeth leol.



Once adopted, the 2RLDP will supersede the current Adopted LDP and become the Council's statutory land-use plan. The development plan contains the policies against which applications for planning permission are determined; in Caerphilly County Borough this includes Future Wales and the Local Development Plan.

Beth ydy 'Cynllun Adnau'?

Mae'r Cynllun Adnau yn garreg filltir bwysig. Mae'n dilyn ymgynghoriad Cynllun Cyn-Adneuo 2025 ac yn nodi'r polisiau manwl, y dyraniadau safle a'r dynodiadau sydd eu hangen i gyflawni gweledigaeth, amcanion a dull strategol y Cynllun. Mae'r Polisiau Strategol wedi'u mireinio mewn ymateb i adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys:



crynodeb o'r prif faterion, heriau a chyfleoedd sy'n wynebu Bwrdeistref Sirol Caerffili;



Gweledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol ac wyth amcan sy'n nodi'r hyn y dylai'r Cynllun ei gyflawni;



Strategaeth Datblygu sy'n esbonio faint o dwf sydd wedi'i gynllunio a ble y dylid ei leoli;



Polisiau Strategol sy'n gosod cyfeiriad cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol;



polisiau cynllunio manwl ar gyfer rheoli datblygu a fydd yn helpu i lywio penderfyniadau ar gynigion datblygu yn y dyfodol;



dyraniadau tir penodol, gan gynnwys dyrannu cyfleusterau Hamdden, Addysg ac Iechyd a diogelu tir oherwydd ei werth o ran natur a'r dirwedd;



Mapiau Cynigion a Chyfyngiadau sy'n dangos ble mae polisiau a dyraniadau yn berthnasol;



a Trywydd Tai, Cynllun Cyflawni Seilwaith a Fframwaith Monitro; a



y dystiolaeth gefndir a'r asesiadau a ddefnyddiwyd i baratoi'r Cynllun.

Dylid darllen y Cynllun a'i bolisiau fel cyfanwaith.

Beth sydd wedi newid ers y Strategaeth a Ffefrir Diwygiedig?

Mae'r Cynllun Adnau yn adeiladu ar y Strategaeth a Ffefrir Diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025. Mae'r Polisiâu Strategol wedi'u mireinio yn dilyn adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid, ac mae'r Cynllun Adnau bellach yn nodi polisiâu cynllunio manwl, dyraniadau safle a dynodiadau.

Dyraniadau tir newydd a chynigion penodol i safleoedd

- Mae 20 o ddyraniadau tai wedi'u nodi, gan ddarparu ar gyfer 2,767 o gartrefi.
- Mae chwe chyfle ychwanegol ar gyfer adfywio dan arweiniad tai wedi'u nodi. Bwriad y rhain yw annog adfywio a buddsoddi, ond ni ddibynnir arnynt i fodloni'r gofyniad tai am nad oes sicrwydd y cânt eu cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun.
- Mae tir cyflogaeth bellach wedi'i nodi drwy ddyraniadau manwl a pholisiâu diogelu.
- Mae tir yn Hen Dŷ'r Orsaf, Rhymni, wedi'i ddyrannu ar gyfer cyfanswm o 12 llain Sipsiwn a Theithwyr. Mae chwe llain eisoes wedi'u datblygu ac yn cael eu meddiannu; byddai'r estyniad arfaethedig yn darparu chwe llain ychwanegol.

Strategaeth a ffigurau wedi'u diweddarau

- Y gofyniad tai yw 6,165 o gartrefi, gyda darpariaeth ar gyfer 7,151 o gartrefi er mwyn darparu hyblygrwydd.
- Y targed tai fforddiadwy yw o leiaf 1,906 o gartrefi.
- Mae'r Cynllun yn darparu 40.3 hectar o dir cyflogaeth ar gyfer defnyddiau Dosbarth B.
- Mae'r Cynllun Adnau yn nodi hierarchaeth aneddiadau pum haen wedi'i llywio gan gysylltedd a hygyrchedd, cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau.

Polisiâu mwy manwl

Mae'r Cynllun Adnau bellach yn cynnwys polisiâu manwl sy'n ymdrin â materion fel lles ac iechyd, creu lleoedd a dylunio, tai, trafnidiaeth, canol trefi, cyflogaeth, twristiaeth, ynni adnewyddadwy, bioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd a glas, mwynau, gwastraff a'r amgylchedd hanesyddol.

Ein Gweledigaeth a'n Hamcanion

Y Weledigaeth yw i'r 2CDLIN ddarparu datblygiad deniadol a chynaliadwy sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at les pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Erbyn 2035, nod y Strategaeth Datblygu yw bod wedi:

- cefnogi economi leol ffyniannus a mwy amrywiol, gan adeiladu ar gryfderau'r Fwrdeistref Sirol a'i lleoliad o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
- manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad ym Metro De Cymru a gwella cyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- helpu canol trefi i addasu ac amrywio fel canolfannau ar gyfer defnyddiau masnachol, cymunedol a defnyddiau ategol eraill;
- darparu swm priodol o dai marchnad a thai fforddiadwy mewn lleoliadau cynaliadwy;
- diogelu a gwella seilwaith gwyrdd a glas, bioamrywiaeth, tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol;
- rhoi creu lleoedd a dylunio o ansawdd uchel wrth galon datblygu, gan barchu cymeriad unigryw trefi a phentrefi;
- cefnogi cyfleusterau hamdden a chwarae, addysg a chymunedol sy'n helpu i greu cymunedau cydnerth a chydlynol; a
- gwella cydnerthedd i newid yn yr hinsawdd drwy addasu, lliniaru a chynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn lleoliadau priodol.

Mae gan y Cynllun wyth amcan:

- Newid yn yr hinsawdd
- Tai
- Iechyd a lles meddyliol a chorfforol
- Creu Lleoedd
- Diwylliant a threftadaeth
- Teithio egnïol a chynaliadwy
- Twf economaidd
- Yr amgylchedd naturiol



Gweler pennod 4 o'r Cynllun Adnau am y Weledigaeth a'r Amcanion llawn.

Sut bydd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn tyfu?

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Ardal Twf Genedlaethol a nodir yng Nghymru'r Dyfodol. Felly, mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau lefel o dwf a all gefnogi poblogaeth ac economi gynaliadwy, gan gynnwys twf yn y boblogaeth o oedran gweithio.

Nod y Cynllun yw ymateb i anghenion tai ac economaidd mewn ffordd gytbwys, gan gyfeirio datblygiad at leoliadau cynaliadwy, cefnogi seilwaith a diogelu'r nodweddion sy'n gwneud y Fwrdeistref Sirol yn unigryw.

Tai

- Gofyniad tai: 6,165 o gartrefi dros gyfnod y Cynllun, gan gynnwys 4,384 o'r cyflenwad cymunedol sy'n cynnwys cartrefi sydd naill ai eisoes â chaniatâd cynllunio neu sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Mae hyn tua 411 o gartrefi y flwyddyn.
- Cyfanswm y ddarpariaeth tai: 7,151 o gartrefi, gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 16%.
- Targed tai fforddiadwy: o leiaf 1,906 o gartrefi.

Cyflogaeth


- Mae 40.3 hectar o dir cyflogaeth wedi'i ddyrannu ar gyfer defnyddiau Dosbarth B ar draws ystod o safleoedd.
- Mae ardaloedd cyflogaeth presennol hefyd yn cael eu diogelu drwy bolisiâu diogelu.

Ble bydd y twf yn digwydd?


Mae'r strategaeth ofodol yn cyd-fynd â dwy brif egwyddor:

- Canol y Dref yn Gyntaf – blaenoriaethu canol trefi ar gyfer datblygiadau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus sylweddol, a chefnogi twf preswyl cynaliadwy yn aneddiadau Haen 1; a
- Buddsoddi Metro – manteisio i'r eithaf ar orsafoedd rheilffordd, gorsafoedd bysiau, cyfnewidfeydd a buddsoddiad ym Metro De Cymru.

Bydd twf yn cael ei dargedu at aneddiadau Haen 1 a Haen 2 yn y lle cyntaf, ac yna at aneddiadau Haen 3. Dim ond datblygiadau mewnlenwi ar raddfa fach a thalgrynnu rhesymegol y gall aneddiadau Haen 4 a Haen 5 eu cynnwys, lle mae hynny'n cyd-fynd â rôl a swyddogaeth yr anheddiad.



Sut bydd y twf yn cael ei gyflawni?



Bydd y ddarpariaeth o 7,151 o gartrefi yn dod o gyfuniad o ddatblygiadau sydd eisoes yn y cyflenwad tai, dyraniadau newydd a datblygiadau 'windfall' yn y dyfodol.

- 3,406 o gartrefi o'r cyflenwad tir tai presennol, gan gynnwys cartrefi sydd wedi'u cwblhau a thir sydd â chaniatâd cynllunio neu sy'n cael ei ddatblygu;
- 2,767 o gartrefi ar 20 o safleoedd tai wedi'u dyrannu; a
- 978 o gartrefi o ddatblygiadau 'windfall' bach a mawr

Ystod a dewis o safleoedd

Mae'r Cynllun yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'r tai at yr aneddiadau sydd â'r mynediad gorau at wasanaethau, cyfleusterau, cyflogaeth a thrafnidiaeth gynaliadwy.

Mae'r rhan fwyaf o'r dyraniadau newydd mewn aneddiadau Haen 1 a Haen 2, gydag un dyraniad mewn anheddiad Haen 3 a dim dyraniadau newydd mewn aneddiadau Haen 4 na Haen 5.

Cyfleoedd adfywio

Mae'r Cynllun hefyd yn nodi chwe chyfle adfywio dan arweiniad tai. Mae'r safleoedd hyn mewn lleoliadau da ar y cyfan a gallent ddod â manteision ehangach i'r gymuned, ond nid ydynt yn cael eu cyfrif tuag at y gofyniad tai am nad oes modd dangos eu hyfywedd na'u cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun gyda digon o sicrwydd eto.

Seilwaith

Mae'r Cynllun Cyflawni Seilwaith yn nodi'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi safleoedd a ddyrannwyd. Lle bo'n briodol, gellir sicrhau seilwaith hefyd drwy amodau cynllunio, rhwymedigaethau cynllunio Adran 106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Gall hyn gynnwys tai fforddiadwy, gwelliannau trafndiaeth, ysgolion, mesurau llifogydd a seilwaith gwyrdd.

Beth arall mae'r Cynllun Adnau yn ei ddweud?

Rheoli twf a chreu lleoedd da

Mae'r Cynllun yn defnyddio'r hierarchaeth aneddiadau, ffiniau aneddiadau a pholisïau manwl i arwain datblygiad i leoliadau priodol. Mae polisïau creu lleoedd yn ceisio sicrhau datblygiad o ansawdd uchel sydd wedi'i ddylunio'n dda, sy'n ymateb i gymeriad lleol, yn cefnogi cymysgedd o ddefnyddiau, yn creu lleoedd lle gellir cerdded yn hawdd ac yn integreiddio seilwaith gwyrdd a glas.



Darparu seilwaith newydd

Mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau'r seilwaith a'r gwasanaethau sydd eu hangen i gefnogi datblygiad. Mae'r Cynllun Cyflawni Seilwaith yn nodi'r hyn sydd ei angen i gefnogi safleoedd a ddyrannwyd. Gall rhwymedigaethau cynllunio hefyd sicrhau tai fforddiadwy, seilwaith cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, gwelliannau i'r priffyrdd, ysgolion, mesurau amddiffyn rhag llifogydd a seilwaith gwyrdd.

Darparu trafndiaeth gynaliadwy

Mae'r Cynllun yn ceisio lleihau'r angen i deithio a chynyddu cerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae'n manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad ym Metro De Cymru drwy ganolbwyntio twf o amgylch cysylltiadau trafndiaeth gynaliadwy ac mae'n cynnwys polisïau ar gyfer gwelliannau teithio egniïol, llwybrau trafndiaeth strategol, hen linellau rheilffordd, gorsafoedd newydd posibl a chyfleusterau parcio a theithio, a chyfnewidfa drafnidiaeth Caerffili.



Cefnogi'r economi, canol trefi a'r economi ymwelwyr

Mae'r Cynllun yn dyrannu ac yn diogelu tir cyflogaeth, yn cefnogi ystod o ddefnyddiau busnes a diwydiannol ac yn ceisio cryfhau rôl economaidd y Fwrdeistref Sirol. Mae'n hyrwyddo canol trefi fel lleoliadau cynaliadwy i fyw, gweithio, ymweld â nhw a chynnal busnes, ac yn cefnogi datblygiad sector twristiaeth gynaliadwy ac economi ymwelwyr.

Darparu cartrefi a chefnogi cymunedau

Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer tai marchnad a thai fforddiadwy ac yn cynnwys polisïau ar gymysgedd a dwysedd tai, tai ar gyfer pobl hŷn, safleoedd bach a datblygiadau mewnlenwi, safleoedd eithriedig ar gyfer tai fforddiadwy a llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae hefyd yn ceisio diogelu a gwella cyfleusterau cymunedol, mannau agored a chyfleusterau hamdden.



Gwella iechyd a lles

Gall penderfyniadau cynllunio ddylanwadu ar iechyd, mynediad at wasanaethau, cynhwysiant cymdeithasol ac ansawdd bywyd. Mae'r Cynllun yn cynnwys polisi lles strategol. Dylai pob cynnig datblygu mawr gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, gyda'r cwmbras a'r manylder yn gymesur â natur a graddfa'r datblygiad. Mae hefyd yn hyrwyddo teithio egnïol, mannau agored hygyrch a datblygiadau sy'n helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Ymateb i newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur

Mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy fesurau fel effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, trafnidiaeth gynaliadwy, cydnerthedd rhag llifogydd a seilwaith gwyrdd. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion perthnasol gynnal a gwella bioamrywiaeth a sicrhau mantais net i fioamrywiaeth.



Diogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol

Mae polisïau manwl yn diogelu tirweddau, safleoedd cadwraeth natur, coed, coetiroedd, gwrychoedd a seilwaith gwyrdd a glas. Mae'r Cynllun hefyd yn diogelu'r amgylchedd hanesyddol ac yn cefnogi adfywio priodol dan arweiniad treftadaeth, yn ogystal ag atgyweirio, addasu ac ailddefnyddio adeiladau a lleoedd hanesyddol.

Diwylliant a hunaniaeth

Mae'r Cynllun yn cydnabod cyfraniad cyfleusterau diwylliannol, hunaniaeth leol, treftadaeth, mannau cyhoeddus a'r Gymraeg at greu lleoedd a chymunedau llwyddiannus.

Sut i gyflwyno sylwadau a chael rhagor o wybodaeth

Bydd y Cynllun Adnau yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2026 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos.

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gallu cyflwyno sylwadau ffurfiol ar bolisiau a chynigion y Cynllun.

Mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys y Datganiad Ysgrifenedig a'r Mapiau Cynigion a Chyfngiadau. Mae asesiadau ategol, gan gynnwys yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ynghyd â'r sylfaen dystiolaeth, ar gael drwy Borth Ymgynghori Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd dogfennau ar gael i'w gweld ar-lein, yn Nhŷ Penallta, ac ym mhob llyfrgell, a bydd swyddogion ar gael yn Nhŷ Penallta drwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad.

Dylid cyflwyno sylwadau ffurfiol drwy ddefnyddio trefniadau ymgynghori cyhoeddedig y Cyngor ac erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad.



Digwyddiadau ymgysylltu Cymorth Cynllunio Cymru

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau i helpu pobl i ddeall y Cynllun Adnau a sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad:

- 11 Tachwedd – YMCA Bargoed – 18:00–20:00
- 12 Tachwedd – Tŷ Penallta, Ystrad Mynach – 18:00–20:00
- 17 Tachwedd – Ysgol Gynradd Rhisga – 18:00–20:00
- 18 Tachwedd – Sefydliad y Glowyr y Coed Duon – 18:00–20:00
- 26 Tachwedd – Canolfan Gymunedol Twyn, Caerffili – 18:00–20:00
- 1 Rhagfyr – Ar-lein – 18:00–20:00

Mae'r digwyddiadau yn gyfle i ddarganfod beth mae'r Cynllun yn ei ddweud, gofyn cwestiynau a deall sut i rannu eich barn.

Dylid dal i gyflwyno sylwadau ffurfiol ar y Cynllun Adnau drwy broses ymgynghori'r Cyngor. Ewch i Borth Ymgynghori'r Cyngor am ddyddiadau terfynol yr ymgynghoriad, trefniadau cyflwyno ac unrhyw ddiweddariadau i'r dogfennau ategol.